


# Ymunwch Â'r Clwb








# Y Rhaglen Ysgolheigion

2023-24

Mae Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr The Brilliant Club yn cynnig cyfle datblygiad proffesiynol ystyrlon, cyflogedig i ymchwilwyr PhD ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa. Ein cenhadaeth ni yw cefnogi myfyrwyr llai ffodus i gael mynediad i brifysgolion mwyaf cystadleuol a llwyddo pan fyddan nhw yno. Rydym yn gwneud hyn drwy hyfforddi tiwtoriaid i ddarparu'r Rhaglen Ysgolheigion mewn ysgolion gwladwriaethol nad ydynt yn ddewisol.

Dangosodd arolwg diweddar o ymchwilwyr fod 85% o diwtoriaid yn adrodd bod "gweithio fel tiwtor wedi hybu eu sgiliau cyflogadwyedd", a bod 96% yn cytuno neu gytuno'n gryf bod eu cwrs diweddaraf "wedi rhoi cyfle ystyrlon i ymgysylltu â'r cyhoedd".

## Cyfle i Ymchwilwyr PhD ac Ymchwilwyr ar ddechrau gyrfa

### Buddion Datblygu Ymchwilwyr

- Cyfathrebu eich ymchwil i gynulleidfa anarbenigol
- Ennill profiad gwerthfawr mewn addysgu ac ymgysylltu â'r cyhoedd
- Datblygu eich sgiliau cynllunio cwricwlwm.

### Bydd tiwtoriaid sy'n gweithio gyda ni yn:

- Cael hyfforddiant pedagogaidd arbenigol a phrofiad go iawn i ddatblygu eich sgiliau addysgu ac eraill a all eu trosglwyddo
- Ennill o £550 y cwrs, £121 ychwanegol am lunio cwrs newydd a chostiau teithio
- Ymuno â chymuned genedlaethol o ymchwilwyr tebyg-o-feddwl sy'n gwneud effaith sylweddol ar fynediad i'r brifysgol.

## Hyfforddiant

Bydd cefnogaeth ar gael i chi ddarparu tiwtorialau ar ffurf prifysgol i grwpiau bach o ddisgyblion. Ar gyfer disgyblion 13 oed a hŷn, byddwch yn cynllunio a darparu rhaglenni sy'n seiliedig ar eich ymchwil eich hun. Ar gyfer disgyblion rhwng 9 a 12 oed, byddwch yn darparu rhaglen wedi'i chynllunio o flaen llaw sy'n addas ar gyfer y dysgwyr hyn.

I baratoi ar gyfer eich cyrsiau, mae pob tiwtor yn cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddiant pedagogaidd. Rydym yn cynnig dull cyfunol, gan gyfuno hyfforddiant ar-lein ag hyfforddiant wyneb yn wyneb rhanbarthol i adeiladu cymuned a rhoi cyfle i chi gyfarfod â'ch cydweithwyr Brilliant Club.

Mae ein hyfforddiant yn cynnwys:

- Sesiynau hanfodol o ran pedagogeg sy'n canolbwyntio ar gynllunio cwrs, cynllunio tiwtorialau, ymgysylltu â disgyblion ac asesu
- Sesiynau dewisol sy'n canolbwyntio ar bynciau fel system ysgolion y Deyrnas Unedig a dysgu pynciau sensitif
- Diogelu plant a diogelwch
- Digwyddiadau cymdeithasol.

## Dylunio cwrs

Mae tiwtoriaid yn creu ystod amrywiol o gyrsiau cyffrous, sy'n seiliedig ar eu hymchwil unigryw eu hunain. Dyma rai enghreifftiau o gyrsiau:




## Taith tiwtoriaid Rhaglen Ysgolheigion

Gofynnir i bob ymchwilydd sy'n gweithio gyda ni ar sail dymhorol a ydynt ar gael. Yna bydd tîm Y Rhaglen Ysgolheigion yn ceisio lleoli pob tiwtor sydd ar gael mewn ysgol leol.

**Hyfforddiant**

- Dylunio eich cwrs gyda chefnogaeth bersonol
- Cyflawni modiwlau hyfforddiant ar-lein ac ymuno â diwrnod hyfforddiant wyneb yn wyneb
- Creu Llawlyfr Cwrs

**Dyddiadau hyfforddiant wyneb yn wyneb**


- *Tymor yr Hydref: Sad 16eg o Fedi*
- *Tymor y Gwanwyn: Sad 18fed o Dachwedd*
- *Tymor yr Haf: Sad 10fed o Chwefror*

**Lansiad Dan Arweiniad y Tiwtor**

- Mae disgyblion yn cyfarfod â'u tiwtor a dysgu am Addysg Uwch

**Tiwtorialau Adborth a Chyflwyno Aseiniadau**

- Marcio'r aseiniad drafft (a gyflwynwyd cyn tiwtorial 6)
- Darparu adborth un-i-un yn y tiwtorial 6
- Marcio ac ymyrryd â'r aseiniadau terfynol
- Darparu adborth un-i-un yn y tiwtorial 7




**Tiwtorialau yn yr Ysgol**

- Cyflwyno tiwtorial wythnosol un awr mewn ysgol i 2 grŵp o 7 disgybl (wythnos 1-5)
- Gosod a marcio aseiniad sylfaenol a gwaith cartref
- Defnyddio eich llawlyfr cwrs ac amgylchedd dysgu rhithwir i gefnogi disgyblion

## Effaith y rhaglen

Mae gweithio fel tiwtor ar gyfer The Brilliant Club ar y Rhaglen Ysgolheigion wedi cynyddu fy set o sgiliau addysgu yn sylweddol. Rwy'n well nawr am gynllunio, rheoli amser, rhoi adborth effeithiol a chyfathrebu. Mae fy sgiliau rhyngbersonol wedi gwella hefyd. Rwy'n llai o fyfyriwr PhD unig yn gweithio'n ddifrifol ar fy mhrosiect fy hun, ac yn hytrach yn rhan o'r gymuned - rhywun sy'n gallu cyfathrebu eu hymchwil i gynulleidfa ehangach.

*Tiwtor PhD Y Rhaglen Ysgolheigion o Brifysgol Aberystwyth*

**1,067** ysgol

**22,073** disgybl ar draws y DU

**803** ymchwilydd

Dangosodd dadansoddiad annibynnol gan UCAS fod **44%** o ddisgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12 a gwblhaodd y Rhaglen Ysgolheigion yn symud ymlaen i'r prifysgolion mwyaf cystadleuol, o'i gymharu â dim ond **28%** o ddisgyblion gyda chefndir tebyg. Mae hwn yn wahaniaeth sylweddol o safbwynt ystadegol.

**28%**

**44%**

## Sut i ymgeisio a chamau nesaf

Ffurflen gais › Canolfan Asesu Ar-lein › Cyflwyno argaeledd › Hyfforddiant › Tiwtora

Am ragor o wybodaeth am Y Rhaglen Ysgolheigion ac i gael mynediad at y ffurflen gais ar-lein, ewch i'n gwefan.

## Cysylltwch â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r sefydliad, y cyfle i weithio fel Tiwtor The Brilliant Club, neu'r broses ymgeisio, anfonwch neges e-bost at **apply@thebrilliantclub.org.**



Mae The Brilliant Club yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (rhif 1147771) ac yr Alban (rhif SC048774).
Mae The Brilliant Club yn gwmni cofrestredig cyfyngedig yn Lloegr a Chymru (rhif 7986971).
The Brilliant Club, 17th Floor, Millbank Tower, 21-24 Millbank, SW1P 4QP.